| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | Cystadleuaeth 134 – Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 |
| | **Cymryd rhan sy'n bwysig, Meirion MacIntyre Huws** |
| | **Cywiriad – Pennill 5 – Gofynnais 'i' sydd yn gywir ac nid 'wrth' fel sydd yn y gerdd wreiddiol.**<br>**Ni fydd y beirniaid yn cosbi cystadleuwyr sy'n llefaru 'wrth'.** |

"Go dda!" medd Mrs Williams,
"Mi wnest dy orau glas.
Sdim ots os wnes ti faglu
a pheidio â gorffen y ras.

"Nid ennill sydd yn bwysig
Ond cymryd rhan â gwên,
Os yw dy dîm yn colli
Rhaid ysgwyd llaw yn glên.

"Sdim ots wrth chwarae criced
Os mai ti oedd yr unig un
I fethu'r bêl bob cyfle,
A llwyddo i daro dy hun.

"Cymeraist ran yn hwyliog,
A dyna ydi'r nod,
Nid ceisio curo'r gweddill
A chwilio am sylw a chlod."

Gofynnais **i / wrth** Mrs Williams,
(Sy'n gwybod pob peth yn y byd),
"Os mai cymryd rhan sy'n bwysig
Pam cadw sgôr o hyd?"